OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2165 (Cy. 232)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Penblewin, Arberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*31 Awst 2011*
Yn dod i rym	*12 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 ac enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Penblewin, Arberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr y darn o'r gefnffordd *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A40 yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4313 i Faenclochog hyd at bwynt 2635 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 10 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd ag y bo'n goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd yn ystod cyfryw adegau y bydd y cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y cyfeirir atynt yno yn weithredol.

7. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 31 Awst 2011

GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.